Glan-llyn

Teitl y Swydd: **Cynorthwyydd Cegin a Llety Glan Llyn a Glan Llyn Isaf**

Math o gontract: **Swydd barhaol, llawn amser (35 awr yr wythnos)**

Graddfa: **Gweithredol 1:** £10.26 YR AWR (£18,673 y flwyddyn, pro rata)

Lleoliad: **Gwersyll Glan Llyn, Y Bala**

Amdanom ni

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru sy'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ac yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned a'r byd yn ehangach.

Ymysg bwrlwm ein canmlwyddiant, dyma ddatgan ein huchelgais heriol i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith ein gwaith. Mae hyn yn allweddol os ydym am i'r Gymraeg fod yn ganolog ym mywydau plant a phobl ifanc Cymru, a sicrhau fod pawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg ai pheidio, yn teimlo perchnogaeth ac ymdeimlad o berthyn tuag at yr iaith a'i thraddodiadau.

Y Swydd

Mae Gwersyll Glan-Llyn yn chwilio am staff yn yr adran Cegin a Llety, Swyddi Coginio, Gweini a pharatoi bwyd a swyddi glanhau.

Mae'r rhain yn swyddi parhaol, gyda'r oriau gwaith i'w trafod a gellir trafod patrwm shifftiau hyblyg.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Huw Antur ar 01678 541000 neu huwantur@urdd.org.

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – 14 Hydref 2022

Mae'r Urdd yn cefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith a gweithgareddau. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, ac yn benodol y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymgeiswyr anabl a phobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.

DISGRIFIAD SWYDD			
Teitl y swydd:	Cynorthwyydd Cegin a Llety Glan Llyn a Glan Llyn Isaf	**Lleoliad:**	Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn
Adran:	Glan-llyn	**Rheolaeth Llinell:**	Dim
Yn adrodd i :	Rheolwr Gwersyll	**Graddfa:**	G1 - £18,673 y flwyddyn (pro-rata)

Prif bwrpas y swydd:

- Cynorthwyo gyda darparu gwasanaeth arlwyo effeithiol i wersyllwyr, hyn yn cynnwys paratoi a gweini bwyd.
- Ymgymryd â dyletswyddau cyffredinol o fewn cegin a lolfa Glan Llyn Isa , hyn yn cynnwys clirio a golchi llestri a chadw'r gegin a'r lolfa yn lân a thaclus.
- Ymgymryd â dyletswyddau glanhau ar y safle fel rhan o'r Tîm Glanhau.
- Ar amseroedd tawel bydd gofyn i dîm Glan-Llyn Isa cynorthwyo tîm Cegin a Glanhan prif wersyll Glan-Llyn.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

- Coginio, paratoi a gweini bwyd yn unol â gweithdrefnau Glan-Llyn Isa a Gwersyll Glan-Llyn
- Golchi llestri, sosbenni a.y.b. a chadw'r gegin a'r ardal fwyd yn lân a thaclus.
- Cyflawni dyletswyddau glanhau cyffredinol fel rhan o'r tîm glanhau yn ôl y galw yn Glan-Llyn Isa ag yn y gwersyll, a chyfrannu at gynnal safonau uchel y safle.
- Sicrhau fod y llety, ystafelloedd cyfarfod ac yr ardaloedd cyhoeddus yn lân cyn i'r gwersyllwyr gyrraedd ac yn ystod eu harhosiad.
- Chydymffurfio â gofynion Hylendid Personol, Diogelwch Bwyd a gofynion Iechyd a Diogelwch, hyn yn cynnwys diheintio'r safle – gweithio'n ddiogel.
- Defnyddio peiriannau yn ddiogel– dilyn cyfarwyddiadau C.O.S.H.H. - Diogelwch Cwsmer. Gweithredu Rheolau Tân.
- Ymarfer safon uchel o lendid personol, golchi a diheintio dwylo yn dda, ac yn aml yn ystod gwaith.
- Nodi'r wybodaeth sydd ar yr hysbysfyrddau – trefniadau gwasanaeth, niferoedd, anghenion diet arbennig, hysbysiadau iechyd a diogelwch / diogelwch bwyd, rota gwaith a.y.b.
- Sicrhau a chynnal safon uchel o hylendid a glanweithdra gyda'r cyfarpar a'r amgylchedd cegin yn ogystal â'r ardaloedd paratoi bwyd a'r storfeydd cysylltiedig, gweithredu Amserlen Glanhau
- Sicrhau fod y caban bwyta a'r gegin yn lân ac yn daclus cyn gorffen gwaith.
- Hysbysu'r rheolwr a staff cynnal a chadw am unrhyw beth sydd o'i le neu angen sylw. Os ydynt yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch neu'r cyhoedd, dylid sôn amdanynt yn syth.
- Mynychu cyfarfodydd tîm a chynnig argymhellion ar gyfer gwelliannau a datblygiadau. Rhoi gwybodaeth a chynorthwyo ein cwsmeriaid mewn ffordd gymwynasgar a chyfeillgar

Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

Hanfodol

i. Sgiliau effeithiol wrth ofalu am gwsmeriaid, agwedd gyfeillgar a chymwynasgar

ii. Gwybodaeth am Ddiogelwch Bwyd, Cymorth Cyntaf ac Iechyd a Diogelwch (bydd cyfle i gael hyfforddiant yn y maes hwn).

iii. Y gallu i gyfathrebu'n Gymraeg

iv. Y gallu i weithio fel rhan o dîm llwyddiannus.

v. Y gallu i ddeall anghenion cwsmeriaid ac arddangos gwerth gofal cwsmer.

vi. Arddangos y gallu i gynllunio llwyth gwaith o gwmpas digwyddiadau a gynhelir yn y gwersyll.

vii. Ymagwedd hyblyg tuag at weithio, gyda synnwyr cyffredin i ymdrin â sefyllfaoedd sy'n codi

viii. Ymddangosiad taclus

ix. Bod yn ddibynadwy a phrydlon.

x. Bod yn gwrtais a meddu ar agwedd broffesiynol

Dymunol

i. Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a Chymorth Cyntaf.

ii. Profiad blaenorol o arlwyo neu lanhau.

Nodiadau i ymgeiswyr:

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Medi 2022 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

Teitl y swydd:	Cynorthwyydd Cegin a Llety
Yn atebol i:	Rheolwr Gwersyll
Cyflog:	Ar raddfa G1 - £18,673 y flwyddyn (pro-rata)
Cytundeb:	Cytundeb gwaith parhaol
Oriau gwaith:	Oriau gwaith llawn amser (35 awr yr wythnos) ond i'w trefnu yn ôl yr angen. Mae patrwm shifftiau'r gwersyll yn golygu gweithio shifftiau bore neu shifftiau pnawn a all gynnwys penwythnosau.
Lleoliad:	Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. (Pro rata)
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Gwiriad GDG:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.
Yswiriant Bywyd:	Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70.